

PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD MERCHER, 31 MAI 2023

Yn
bressenol: Cynghorydd Wong(Cadeirydd)

Cynghorwyr Berman, Brown-Reckless, Henshaw a/ac
Lloyd Jones

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Jenkins, Shimmin a Thomson.

2 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorwyr Berman, Brown-Reckless a Henshaw fuddiannau personol gan eu bod wedi mynychu digwyddiadau yn Neuadd Dewi Sant ac wedi gwneud cais am docynnau i Canwr y Byd Caerdydd.

3 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2023 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

4 : NEUADD DEWI SANT - Y CAMAU NESAF

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mai'r eitem hon oedd galluogi craffu ar ddogfennau allweddol yn ymwneud â throsglwyddo eiddo arfaethedig Neuadd Dewi Sant, gan gynnwys yr Hysbysiad Tryloywder Ex-Ante Gwirfoddol (hysbysiad VEAT).

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Burke (Aelod Cabinet – Diwylliant, Parciau a Digwyddiadau), Kathryn Richards (Pennaeth Marchnata, Twristiaeth a Digwyddiadau), Scott Couzens a Rebecca Pendlebury (Bevan Brittan LLP), a oedd yn mynychu o bell, a Neil Hanratty (Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd), Ruth Cayford (Rheolwr Gweithredol – Diwydiannau Creadigol a Diwylliant), Chris Barnett (RhG Prosiectau Mawr), Donna Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Ystadau'r Sir) ac Eirian Jones (Rheolwr Gweithredol – Ystadau) a oedd yn bresennol yn bersonol.

Rhoddodd Y Cynghorydd Gwahoddwyd Burke i wneud datganiad, ac ar ôl hynny rhoddodd Neil Hanratty ei gyflwyniad. Gofynnwyd i'r Aelodau am eu sylwadau, eu harsylwadau a'u cwestiynau.

Clywodd yr aelodau nad oedd ymarfer marchnata meddal wedi arwain at unrhyw geisiadau. Roedd gan ddarpar gynigywyr chwe wythnos i gyflwyno datganiad o ddiddordeb, a oedd yn ffenestr safonol. Roedd yr adborth a roddwyd i'r syrfëwr annibynnol yn dangos mai'r prif resymau dros ddiffyg cynigion oedd y rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â'r adeilad, ynghyd â'r ymrwymiad i gadw'r rhaglen glasurol heb gymorthdal.

Nododd yr Aelodau fod yr ymarfer marchnata blaenorol yn 2017 wedi arwain at o leiaf dau gynigydd a oedd eisiau cymhorthdal y cyngor fel rhan o drafodaethau. Eglurodd swyddogion fod yr ymarfer hwn wedi cydgysylltu Neuadd Dewi Sant â'r Theatr Newydd, gyda'r diddordeb yn canolbwyntio ar yr olaf.

Roedd yr Aelodau'n argymhell sicrhau bod yr ymrwymiad i gynnal y rhaglen glasurol am naill ai 80 neu 90 diwrnod y flwyddyn yn cael ei amlygu mewn datganiad i'r wasg sy'n cyd-fynd â'r VEAT. Cadarnhaodd swyddogion y dylai profiad cyhoeddus arlwy cerddoriaeth glasurol y lleoliad fod yr un mor dda, os nad yn well, ac mai'r ffigwr 80/90 diwrnod oedd y lleiafswm.

Holodd yr aelodau statws digwyddiadau cymunedol a gynhaliwyd yn y neuadd ac a oedd ar wahân i'r rhaglen glasurol. Byddai'r ffordd y byddai'r rhain yn cael eu trin yn cael eu cynnwys yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, a fyddai'n gysylltiedig ag adroddiad y Cabinet yn y dyfodol. Byddai tîm Actifyddion Artistig yn aros o fewn y cyngor.

Wrth drafod y bwrdd partneriaeth cyngori rhanddeiliaid arfaethedig, cynghorwyd yr Aelodau y dylai'r pwyllgor allu craffu'r corff hwn. Roedd hwn yn gyfle i sicrhau bod Neuadd Dewi Sant yn cael ei gwella yn hytrach na chadw'n unig.

Rhodddwyd gwybodaeth i'r aelodau ynghylch pryd y byddai'r dogfennau perthnasol yn mynd i mewn i'r parth cyhoeddus, a chlywsant y byddai'r hysbysiad VEAT yn mynd allan am 28 diwrnod yn hytrach na'r lleiafswm cyfreithiol o 10. Byddai sefydliadau sydd â diddordeb mewn herio'r VEAT yn gallu ceisio datgelu rhagor o wybodaeth, er y gellid golygu rhai rhannau ohoni.

Eglurodd swyddogion fod y trafodiad posibl ynglŷn â Neuadd Dewi Sant yn gwbl ar wahân i ddarpariaeth arena newydd Caerdydd. Roedd AMG yn eiddo yn rhannol i Live Nation, sef y cynigydd a ffefrir ar gyfer yr arena, ond bu proses gaffael agored a thryloyw ac nid oes cysylltiad masnachol rhwng y ddau drafodiad.

Clywodd yr aelodau am ddarpariaethau'r cytundeb prydles pe bai torri. Pe na bai pryderon yr adeilad yn cael sylw, yna gallai'r cymal 'cadw ar agor' orfodi'r gweithredwr i gyflawni'r gwaith angenrheidiol. Byddai cyflwr yr adeilad yn cael ei fonitro'n rhagweithiol bob blwyddyn.

Rhodddwyd gwybod i'r aelodau, er y byddai'r cytundeb prydlesu yn sicrhau darpariaeth y rhaglen glasurol, na fyddai'n cynnwys pethau fel prisiau tocynnau, y byddai Live Nation yn eu gosod. Roedd yn brydles yn hytrach na dogfen darparu gwasanaethau.

Clywodd yr Aelodau nad oedd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi dweud wrth y Cyngor unrhyw ffordd i adolygu'r trafodiad hwn.

Nododd y Cadeirydd fod Atodiadau 2-5 yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol, felly symudodd y pwyllgor i sesiwn eithriedig i'w trafod.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

5 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Doedd dim.

6 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Mawrth 20 Mehefin, 5pm

Ychwanegodd Angela Holt y byddai'n cysylltu â'r Aelodau cyn y cyfarfod hwnnw i drafod y rhaglen waith, gan fod hwn yn bwyllgor sydd newydd ei gyfansoddi yn dilyn y Cyngor Blynyddol.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.30 pm